

Diwedd Blwyddyn

Nid yw'r sawl a osododd ei law ar yr aradr, ac sy'n edrych yn ôl, yn addas i deyrnas Dduw.

LUC 9: 62

EMYNAU

Ar ddiwedd blwyddyn fel ar ddechrau blwyddyn erfyniwn am fendith Duw:

Dyro inni fendith newydd
 gyda'n gilydd yn dy dŷ;
 ti sy'n rhoddi nerth i dderbyn,
 rho'r gyfrinach oddi fry
 fel y teimlwn
 rym dy anorchfygol ras.

Derwyn Jones (*Caneuon Ffydd*: 21)

Mor bwysig ar drothwy cyfnod newydd ydi gwybod fod Duw yn dal yr un mor ffyddlon:

Un a gefais imi'n gyfaill,
 pwy fel efe!
 Hwn a gâr yn fwy nag eraill,
 pwy fel efe!
 Cyfnewidiol ydyw dynion
 a siomedig yw cyfeillion;
 hwn a bery byth yn ffyddlon,
 pwy fel efe!

Marianne Nunn *efel*. Pedr Fardd (*Caneuon Ffydd*: 368)

'All day hymn' oedd teitl yr emyn hwn ond fe wnaiff y tro ar gyfer pob achlysur:

Arglwydd pob gobaith ac Arglwydd pob hoen,
na threchwyd dy ffydd gan na gofal na phoen,
bydd yma pan godwn, a dyro yn rhydd
lawenydd i'n calon ar doriad y dydd.

Jan Struther *cyf.* D. Eirwyn Morgan (*Caneuon Ffydd*: 394)

Dymuniad y Cristion ar bob achlysur ydi cael bod gyda Duw yn wastad:

Yn wastad gyda thi
dymunwn fod, fy Nuw,
yn rhodio gyda thi 'mhob man
ac yn dy gwmni'n byw.

J. D. Burns *cyf.* Elfed (*Caneuon Ffydd*: 672)

Mae'r arweiniad a gais yr emynydd yn troi'n ymddiriedaeth lwy:

Arglwydd, arwain drwy'r anialwch
fi, bererin gwael ei wedd,
nad oes ynof nerth na bywyd,
fel yn gorwedd yn y bedd:
hollalluog
ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 702)

Dyhead sydd yma ar i Dduw ar ddiwedd blwyddyn wrando ac ateb cri yr unigolyn:

O Dduw, clyw fy nghri,
O Dduw, clyw fy nghri,
galw 'rwyf, ateb fi:
O Dduw, clyw fy nghri,
O Dduw, clyw fy nghri,
tyred, erglyw fy llef.

Cymuned Taizé *cyf.* Mawl ac Addoliad (*Caneuon Ffydd*: 799)

GWEDDIAU**Ynghanol amrywiaethau bywyd diolch am y nerth sy'n dal i'n cynnal:**

Ar ddiwedd blwyddyn, O Dad, diolchwn i Ti am fendithion y flwyddyn aeth heibio. Bu'r flwyddyn, fel pob blwyddyn, yn amrywiol ei phrofiadau i ni i gyd. Blwyddyn o lwyddiant, dathlu a llawenydd i rai; blwyddyn o fethiant, galar a loes i eraill. I rai ohonom roedd y ffordd yn un hawdd ei thramwyo ond i eraill yn serth ac yn rhwystr. Ond yn yr amrywiaeth o brofiadau roeddem yn teimlo fod dy nerth di yn ein cynnal. Diolch i ti. Amen.

Ar derfyn blwyddyn gofynnwn am nerth i bydru ymlaen i'r flwyddyn newydd a byw yn fwy tebyg i Iesu Grist:

Moliannwn di, O! Dduw, am yr etfeddiaeth a ddaeth i ni o'r gorffennol, ac am holl lafur y rhai fu'n llafurio'n ddiwyd yn dy winllan. Amlheiaist dy gariad drwy eu llafur, eu ffydd a'u deall; gwna ninnau'n gyffelyb iddynt i ddiogelu'r ffydd Gristnogol. Bendithia ni heddiw, y rhai sy'n ceisio'r ffordd newydd, i agor ac i wella ansawdd bywyd. Goleua ein llwybrau; prydfertha ein bywyd; gwna ni'n fwy tebyg i Iesu Grist, yn byw gan lwyr gysegru'n bywyd i'th wasanaethu di, ein Duw. Amen.

Carys Ann

Ar ddiwedd blwyddyn diolchwn am yr hyn a fu ac edrychwn ymlaen a gofynnwn am dy gynhaliaeth yn y flwyddyn newydd:

O Dduw, ein Tad nefol,

a'n digonaist â daioni dros ein holl ddyddiau,
deuwn yn ostyngedig o'th flaen i'th addoli.

Diolchwn am y flwyddyn a dynnodd i'w therfyn:

am y gwersi a ddysgasom wrth wrando ar dy Air,
am brofiadau o'th agosrwydd mewn dyddiau dwys,
am y sicrwydd i ti faddau ein camgymeriadau ffôl,
ac am i ti ein coroni â chariad a thrugaredd.

Wrth i ni wynebu yfory yn dy gwmmi,

derbyn ein hymgysegriad a chryfha'n ffydd;
 cysegra'n dyhead am adnewyddiad ysbrydol;
 cynnal ni yn wyneb pob dieithrwch,
 a chyffwrdd ni â golau a gwres yr Ysbryd Glân;
 yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Idwal Wynne Jones

Diolchwn i Dduw am ei gysondeb a'i ffyddlondeb dros y dyddiau a fu:

Ein Duw byw,
 wrth ddod ynghyd ar ddiwrnod olaf y flwyddyn,
 diolchwn a molwn di
 am y modd y bu i ti ein harwain drwy'r da a'r drwg,
 llawenydd a thristwch,
 gobaith a siomedigaeth,
 plaser a phoen.

Am gysondeb dy gariad,
 yn ffyddlon ar hyd y blynyddoedd,
 derbyn ein mawl diolchgar. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

Ar ddiwedd blwyddyn cyffeswn fethiannau'r gorffennol:

Cyffeswn, ein Tad, nad ydym wedi d'adnabod fel y dylem, dy ddilyn yn ôl traed Iesu Grist, nac ymddiried ynot ar hyd y ffordd.

Cyffeswn i'n hofnau a'n pryderon am y gorffennol, y presennol a'r dyfodol ein llethu a'n gwneud yn ddiymadferth yn dy waith.

Cyffeswn nad ydym wedi gwneud y defnydd gorau o'r amser a'r doniau a roddaist inni. Yr ydym wedi eu gwastraffu, eu camddefnyddio a'u colli. O Dad, maddau inni ein gwendidau, ein pechodau a'n hanallu a'n diffyg ymddiriedaeth ynot.

'Crea galon lân ynof, O Dduw, rho ysbryd newydd cadarn ynof.' Amen.

Cau'r Adwy

ADNODAU

Mae'r proffwyd yn canu clodydd yr Arglwydd am ei ddoniau, ei drugaredd a'i lawnder:

Mynegaf ffyddlondeb yr ARGLWYDD,
a chanu ei glodydd
am y cyfan a roddodd yr ARGLWYDD i ni,
a'i ddaioni mawr i dŷ Israel,
am y cyfan a roddodd iddynt o'i drugaredd,
ac o lawnder ei gariad di-sigl.

Eseia 63: 7

Yn llaw Duw y mae ein hamseroedd, felly dowch i ni ymddiried ynddo:

Y mae fy amserau yn dy law di;
gwared fi rhag fy ngelynion a'm herlidwyr.

Salm 31: 15

Os yw Duw yn agos atom dyma'r cam cyntaf i ninnau glosio'n nes ato ef:

Ond da i mi yw bod yn agos at Dduw;
yr wyf wedi gwneud yr Arglwydd DDUW yn gysgod i mi,
er mwyn imi fynegi dy ryfeddodau.

Salm 73: 28

Wrth gamu ymlaen o'r hen i'r newydd nod y Cristion yw byw bywyd y deyrnas:

Ceisiwch yn hytrach ei deyrnas ef, a rhoir y pethau hyn yn ychwaneg i chwi.

Luc 12: 31

Nesawn mewn hyder at orsedd gras a hynny er mwyn derbyn trugaredd a gras:

Felly, gadewch inni nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd.

Hebraid 4: 16

Wrth i ni droi at Dduw, boed i hynny ddod yn brofiad byw i ni. Nesewch at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi:

Nesewch at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi. Glanhewch eich dwylo, chwi bechaduriaid, a phurwch eich calonnau, chwi bobl ddau feddwl.

Iago 4: 8

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Gŵyl yr Ystwyll ydi'r ŵyl sy'n dilyn y Nadolig a hynny'n dechrau ar y 6 Ionawr. Enw arall ar yr ŵyl hon yw'r Seren Ŵyl gan mai dyma, yn ôl traddodiad, yr adeg y cyrhaeddodd y seryddion i Fethlehem.

'Hed Amser, meddi. Na! Erys Amser; Dyn â.'

Ni all yr holl dywyllwch yn y byd ddiffodd y gannwyll leiaf.

Hanfod crefydd yw'r ymdeimlad o ddibyniaeth lwyr.

F. Schleiermacher

Na felltithiwch y tywyllwch – goleuwch gannwyll.

Na ddywed ddrwg am y flwyddyn
Hyd nes dyfod at ei therfyn.